

Cyngor Cymuned Llanelian (302)

Cofnodion cyfarfod Medi 11, 2018 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Elfyn Hughes, Thomas Jones, Hefina Williams, John Griffiths, Dafydd Griffiths, Ian Evans, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Glenys Jones, Helen Hughes, Cyng. Richard Jones,

Ymddiheuriadau: David Gerrard, Cyng. Aled Jones

Yn bresennol: Carli Evans Thau (Clerc)

Yn absennol: Cyng. Richard Griffiths

1 Croeso

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Elfyn Hughes, ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.

2 Datgan Diddordeb

Thomas Jones – Giatiau Mynwent Eilian

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Dafydd Griffiths, eilio Ian Evans

4 Materion yn Codi o'r Cofnodion

4.1 Dublin

Cafwyd gadarnhad mai Stad Dublin fydd enw'r datblygiad. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu eto a Grwp Cynefin ynglŷn a chael bod yn rhan o'r broses i osod y tai unwaith byddent wedi eu cwblhau. Nodwyd bod adroddiad Grwp Cynefin wedi ei dderbyn er gwybodaeth.

CET

4.2 Giatiau Mynwent

4.2.1 Bosra – cytuno tynnu'r tsiaen nawr bod giatiau newydd yn eu lle gan nad oes angen iddynt fod ar glo. Y clerc i gysylltu a'r Henaduriaeth i nodi bod y Cyngor am dynnu'r tsiaen a chodi ymwybyddiaeth bod y llwybr yn anwastad ac angen sylw. Mae hefyd angen sylw i'r llwyn ar ochr Amlwch gan fod y tyfiant yn dechrau cuddio rhai beddfeini.

CET

4.2.2 Llanelian – trafodwyd a oedd angen, ac aoedd posib cyfiawnhau gwario cyn gymaint o arian am giatiau newydd. Nodwyd bod rhai amodau ynghlwm a'r caniatad o'r adran gynllunio ond nad oedd rheini yn datgan pa gwmnïau gaiff wneud y gwaith.

Trafodwyd dau opsiwn posib sef comisiynu giat artistig yn dynodi rhywbeth hanesyddol, neu giat draddodiadol o'r un cynllun/patrwm a'r giat bresennol. Cytuno dylai'r giat newydd gyd fynd a'r disgrifiad wedi ei gofrestru gan CADW a byddai careg yn cael ei osod yn cydnabod cyfraniad Mrs Mair Morris. (Cytuno byddai is-bwyllgor y fynwent yn cytuno ar eirfa a chynllun y garreg)

Derbyniwyd tri pris am y gwaith i greu giat o'r un patrwm gan Castaway Cast Products, Marsh Brothers a Richard Williams. Bu i Thomas Jones adael yr ystafell tra bod penderfynnu ar gytundeb. Cytuno derbyn pris Richard Williams a gofynnwyd i'r clerc anfon ato gan gynnwys copi o amodau cynllunio fel bod modd iddo paratoi darluniau a chynllun manwl am y gwaith. Roedd yr aelodau yn fodlon gyda'r gwariant a chytuno peidio a gofyn i'r Eglwys am gyfraniad tuag at y gwaith.

CET

4.3 Priffyrdd

Nodwyd bod CSYM wedi bod yn cael golwg ble roedd y llwybr yn croesi'r ffordd osgoi ac am osod rhwystrau pob ochr i'r lon. Byddai hyn yn codi ymwybyddiaeth gyrrwyr a cherddwyr.

Roedd yr aelodau yn bryderus iawn am gyflymder cerbydau yn teithio ar hyd y ffordd

osgoi. Nodwyd bod Aled Jones wedi son am arolwg cyflymder yn y gorffennol. Roedd pryder nad oedd y cyfyngiad 40mya yn ymestyn heibio i'r man ble mae'r llwybrau uchod yn croesi, croesfan y llwybr beicio, cyffordd o'r pentref a chyffordd Marie Curry. Nodwyd bod disgwyl i fwy o gerbydau ddefnyddio'r lon nawr bod gwaith clirio safle Wylfa Newydd wedi ei gymeradwy ynghyd a mwy o dai yn y pentref. Cytuno yn unfrydol byddai gofyn i CSYM am arolwg ac asesiad o'r sefyllfa er diogelwch. Byddai hefyd gofyn i'r adran edrych ar y posibilrwydd am barth 20mya drwy'r pentref gan fod cerbydau yn gyrru er bod ceir wedi parcio ar hyd y pentref.

CET

4.4 Mynediad i'r Eglwys

Wedi peth ymchwil, mae'n debyg nad yw'r lon at giat yr Eglwys wedi ei gofrestru yn eiddo i neb, yn bendant ddim i'r Cyngor Cymuned, ac nid oedd wedi ei gynnwys pan fu'r fynwent gael ei drosglwyddo yn 1925. Cytuno nad oedd gan y Cyngor Cymuned hawl ymyryd yn y sefyllfa a na fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd. Byddai unrhyw drafodaethau rhwng yr Eglwys a pherchennog y ty.

5 Caeau Chwarae

Nododd Gordon Hayes bod mainc oedd yn rodd gan Magnox wedi cael ei ddifrodi ac yn pydru. Hwn yw'r unig mainc goed yn y cae chwarae erbyn hyn. Cytuno ysgrifennu at Magnox i ofyn a fyddent a diddordeb gosod mainc blastig yn ei le.

CET

6 Llithrfa

Nodwyd bod y postyn yn cael ei symud ddiwedd yr wythnos.

7 Cynllunio

7.1 Ceisiadau – ni fu ceisiadau i'w cyflwyno yn y cyfarfod. Nodwyd fodd bynnag bod nifer o geisiadau wedi eu derbyn dros yr haf a bod pecyn wedi ei ddsbarthu i'r aelodau cael eu hystyried –

- Merddyn Cowper (24C350) – dim sylw
- Lane Ends (24C352A) – gwrthod
- Lands End (24C352B/SCR) - gwrthod
- Tir ger y Mastiau yn Nebo (24C331B) – gwrthod
- Carrog, Llaneilian (24C353) – dim gwrthwynebiad

7.2 Penderfyniadau – nodwyd penderfyniadau CSYM fel a ganlyn –

- Hen Blas, Llaneilian (24C129G) – caniatad
- Cae Gron, Llaneilian (24C225E) – caniatad

Nodwyd bod cais am sied amaethyddol ger y mastiau yn Nebo wedi ei dynnu yn ol (24C331B)

8 Materion Ariannol

8.1 Taliadau

Cymeradwywyd y taliadau canlynol –
£42.00 Neuadd Bentref Penysarn (costau llogi)
£120.00 JRE Design (arwyddion)
£286.07 Cyflog Clerc Gorffennaf
£285.87 Cyflog Clerc Awst
£214.40 HMRC (PAYE)

8.2 Ceisiadau am Arian

Nid oedd ceisiadau o'r newydd i'w ystyried.

8.3 Archwiliad

Mae'r archwiliwr allannol wedi gofyn am gysoniad banc o'r newydd yn cynnwys arian TMI a'r llog ac yn cofnodi'r eglurhad am y gwahaniaeth. Mae'r clerwr wedi cysylltu a'r archwiliwr mewnol gan fod angen newid yr hyn oedd wedi ei gynnwys ar yr adroddiad blynyddol. Roedd yr aelodau yn hapus i dderbyn y newidiadau.

8.4 Asesiad Risg

Cyflwynwyd gopi o'r asesiad risg ariannol wedi ei adolygu a'i addasu gan yr is-bwyllgor cyllid. Nodwyd byddai angen adolygu'r ddogfen yn flynyddol. Roedd paratoi dogfen o'r fath yn un o'r pwyntiau a nodwyd gan yr archwiliwr mewnol. Mabwysiadawyd y ddogfen a diolchwyd i aelodau'r pwyllgor am eu gwaith.

9 Cronfa Tŷ Moel Isaf

Cytuno byddai trafod ymhellach unwaith bydd yr arian wedi ei dderbyn yn ei gyfanrwydd.

10 Iechyd a Diogelwch

Mae disgwyl adroddiad gan Huw Roberts Gwaith Cerrig Beddi yn dilyn asesiad o'r fynwent. Y clerch i gysylltu am ddiweddariad cyn gynted a phosib. Cynnigwyd bod angen i pwyllgor y fynwent gwrdd yn y fynwent i asesu dros eu hunain a blaenoriaethu gwaith. Y clerch i gadarnhau dyddiad ac amser unwaith bydd adroddiad Huw Roberts wedi ei dderbyn.

CET

11 Wylfa Newydd

Cafwyd grynoded gan Dafydd Griffiths yn dilyn cyfarfodydd diweddaraf Partneriaeth Cynghroau Gogledd Mon. Mae'r cais cynllunio i glirio a pharatoi'r safle wedi ei gymeradwyo gan CSYM er nad oes caniatad i adeiladu'r atomfa wedi ei ganiatau gan y llywodraeth hyd yma. Gobeithir caiff y cynghorau lleol mewnbwn i'r cytundeb cynllunio 106 er budd y cymunedau fydd yn cael eu heffeithui fwyaf. Cafwyd cyfarfod gyda Gwen Parry-Jones un o gyfarwyddwyr Horizon nos Lun, ac mae cyfarfod arall i drafod y Datganiad Tir Cyffredin nos Fercher.

12 Gohebiaeth

Cafwyd wybod gan y Grid Cenedlaethol eu bod wedi cyflwyno eu cais DCO i'r arolygaeth gynllunio erbyn hyn. Mae cylchlythyr y corf wedi ei ddsbarthu i drigolion lleol Mae cyfarfod wedi ei drefnu ddiwedd y mis gan grwp Mon yn erbyn Peilonau.

13 Unrhyw Fater Arall

- 13.1** Polisiau – nodwyd bod angen adolygu rheoliadau ariannol a pholisi iaith y cyngor. Cytuno byddai'r is-bwyllgor polisi a chyllid yn edrych ar y dogfennau a'u cyflwyno i'r cyngor llawn dros y misoedd nesaf. POLISI
- 13.2** Cod Ymddygiad – nodwyd bod angen cynnal sesiwn atgoffa ar gyfer yr aelodau er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o, ac yn deall gofynnion y ddogfen. Cytuno cynnal y sesiwn ar ddiwedd cyfarfod mis Tachwedd. CET
- 13.3** Penodi Is-gadeirydd – wedi peth trafod, penodwyd Ian Evans a Thomas Jones yn is-gadeiryddion.
- 13.4** Cadarnhau Aelodaeth Is-bwyllgorau a Chynrychiolaeth ar Bwyllgorau Allannol –
- Llithrfa – Dafydd Griffiths, Thomas Jones, John Griffiths, aelodau o'r gymuned
 - Caeau Chwarae – Gordon Hayes, Carol Whitaker, Dafydd Griffiths, Elfyn Hughes
 - Mynwent – Elfyn Hughes, Thomas Jones, Helen Hughes, John Griffiths, Ian Evans
 - Cyllid a Polisi – Dafydd Griffiths, Hefina Williams, Elfyn Hughes, Thomas Jones, Ian Evans
 - Pwyllgor y Neuadd – Helen Hughes
 - Llywodraethwyr yr Ysgol – Glenys Jones
 - Grwpiau Wylfa (PLG/SSG) – Dafydd Griffiths, John Griffiths
 - Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon – Dafydd Griffiths, John Griffiths
 - Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned – Hefina Williams
 - Un Llais Cymru – Hefina Williams

- 13.5** Gardd Top Rallt – cadarnhawyd mai'r cyngor sydd berchen ar y maes parcio a'r gardd fechan, a'i fod wedi ei ddatblygu gyda grant gan Menter Mon rhai blynyddoedd yn ol. Cytuno byddai rheoli'r ardal i'w gynnwys yng nghyfrifoldebau pwyllgor y caeau chwarae. Cytuno bod angen chwyn laddwr ar y palmentydd cyn gynted a phosib, trwsio'r gwaith brics a phlannu'r potiau blodau. Cytuno byddai Glenys Jones yn cysylltu eto gyda'r Ysgol i weld a fydent fodlon cynnal a chadw'r potiau blodau ar ran y Cyngor. GJ
- 13.6** Telesgop Mynydd Parys – cafwyd trosolwg o'r prosiect i osod telesgop ger y melin wynt ar Fynydd Parys fel rhan o'r dathliadau 250 mlynedd ers canfod copr. Mae disgwyl mwy o wybodaeth a chostau cyn trafod ymhellach. Y Clerc i wneud ymholiadau. CET
- 13.7** Ysbwriel – daw cwynion am ysbwriel yn y lon ger Cae Dwr, Nebo. Cytuno cysylltu a CSYM i godi ymwybyddiaeth gan anfon copi o'r ebost at Richard Jones er gwybodaeth er mwyn iddo yntau wneud ymholiadau hefyd. CET ROJ
- 13.8** Biniau Ailgylchu – nodwyd bod y biniau ailgylchu wedi eu symud o faes parcio'r Bedol. Mae'r biniau ailgylchu yn Amlwch wedi eu newid am rai mwy o fath gwahanol. Nodwyd bod y biniau yn boblogaidd iawn yn y pentref gyda nifer fawr wedi bod yn eu defnyddio. Cytuno gofyn i'r adran gwastraff am fin tebyg i'r un sydd wedi ei osod ym maes parcio'r llyfrgell yn Amlwch. CET
- 13.9** Parcio ceir ar yr hen lon – nododd Glenys Jones bod nifer o geir a faniau yn cael eu parcio ar yr hen lon ar y ffordd i fewn i'r pentref ger Rhos Newydd, gydag nifer ohonynt heb symud ers peth amser - dros flwyddyn efallai. Cytuno cysylltu ag adran briffyrdd CSYM i godi ymwybyddiaeth. CET
- 13.10** Llwybr Lletroed - Roedd pryder bod y tiffeddianwr wedi clirio'r llwyn/eithin ar hyd y llwybr ac felly bod y llwybr yn dilyn ymyl y cae yn hytrach na bod yn lwybr penodol. Mae'r cae llawn gwartheg a nifer o bobl ofn cerdded y llwybr erbyn hyn. Y clerch i gysylltu a'r swyddog tramwy i godi ymwybyddiaeth a gofyn cyngor. Nid yw'r ffermwr yn atal pobl rhag defnyddio'r llwybr. CET
- 13.11** Blwch Post – fe ofynwyd os oedd unrhyw ddiweddariad ynglŷn a symud y blwch post yn y pentref a'i ail-leoli ger y siop. Gofynnwyd i'r clerch gysylltu a'r Post Brenhinol i ofyn am ddiweddariad. CET

14 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Bydd y cyfarfod nesaf Hydref 9, 2018 am 7 o'r gloch.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.50.

**Arwyddwyd
Elfyn Hughes
Cadeirydd**

CET09/2018